COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD MERCHER, 20 GORFFENNAF 2022, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd M Jones – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe |
| S J Bletsoe | JPD Blundell | E L P Caparros | N Clarke |
| RJ Collins | HJ David | C Davies | C L C Davies |
| P Davies | M J Evans | N Farr | J Gebbie |
| RM Granville | H Griffiths | S J Griffiths | D T Harrison |
| M L Hughes | D M Hughes | RM James | M R John |
| MJ Kearn | W J Kendall | M Lewis | J Llewellyn-Hopkins |
| RL Penhale-Thomas | J E Pratt | E Richards | R J Smith |
| JC Spanswick | T Thomas | G Walter | A Wathan |
| A Williams | AJ Williams | I Williams | MJ Williams |
| R Williams | E D Winstanley | T Wood | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Ford, W R Goode, P W Jenkins, I M Spiller, JH Tildesley MBE a/ac HM Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Laura Griffiths | Rheolwr Grŵp Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Andrew Rees | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

29. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd T Wood fuddiant personol yn eitem 11 (3) ar yr Agenda fel masnachwr yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr.

30. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 15 Mehefin 2022 fel cofnod gwir a chywir, yn amodol ar ychwanegu'r paragraffau canlynol at y cofnodion ar Ddatganiadau o Fuddiant, Diweddariad y Rhaglen Gyfalaf:-

‘Newid y rheswm dros y datganiad o fuddiant a wnaed gan y Cynghorydd I Williams o’r hyn a gynhwyswyd yn y Cofnodion, i fod fel a ganlyn:-

Buddiant personol fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Oldcastle ac Ysgol Gyfun Brynteg.’

Mewn perthynas â'r paragraffau yn ymwneud â buddsoddiad yn Ysgolion Cynradd Coety a Phencoed gan Aelod ac ymateb gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd ar yr eitem Diweddariad y Rhaglen Gyfalaf, dylid ychwanegu'r cwestiwn canlynol gan Aelod ac ymateb gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau i ran hon y cofnodion:-

‘Mae cynnydd o £500k wedi’i ymrwymo i brosiect Cosy Corner, Porthcawl, felly a gaf i sicrwydd os gwelwch yn dda mai hwn yw’r cynnydd olaf yng nghostau’r cynllun hwn ac oni fyddai’n ddoethach symud ymlaen yma gyda’r Cynllun Credu blaenorol, gan fod y cynllun wedi gor-redeg beth bynnag.

Roedd Credu wedi bwriadu datblygu Canolfan Forwrol yn y lleoliad hwn yn ôl yn 2020, ar gost o £5.8m. Roedd Croeso Cymru wedi ymrwymo cyllid o £3m tuag at hyn. Fodd bynnag, tynnodd Credu yn ôl o’r cynllun wrth iddynt fynd i ddwylo’r gweinyddwyr, felly gyda’r safle wedi’i hanner ei adeiladu, cymerodd CBS Pen-y-bont ar Ogwr yr awenau i’w wneud yn ddiogel i ddechrau. Gyda dim ond £1m o £3m o gyllid Croeso Cymru ar gael bryd hynny, penderfynodd y Cabinet symud y safle yn ei flaen fel rhan o Gynllun Cymunedol. Felly, datblygwyd adeilad unllawr yno, yn gydnaws ag adeiladau eraill yn y lleoliad, gyda nifer o ddefnyddiau o fewn hyn. Yna, fel rhan o'i Raglen Gyfalaf, ymrwymodd y Cyngor £1m pellach o arian cyfatebol i gyllid Croeso Cymru. Fodd bynnag, er mwyn symud ymlaen gyda gwaith allanol arall ar y safle fel rhan o ddatblygiad Cosy Corner ac mewn ymgais i ateb pwysau a chostau cynyddol y farchnad a chwyddiant bu'n rhaid ymrwymo £500k pellach i'r cynllun, er mwyn symud ymlaen gyda'r cynllun. Nid oedd y cynllun gwreiddiol erioed wedi gor-redeg.’

31. <u>DERBYN CYHOEDDIADAU ODDI WRTH:</u>

<u>Y Maer</u>

Cyhoeddodd y Maer ein bod yn aml, fel cyngor, yn rhybuddio pobl i aros yn effro am sgamiau sydd wedi’u cynllunio i ddarbwyllo pobl i roi eu harian neu i ddatgelu manylion bancio preifat.

Roedd yn siŵr y gallai cydweithwyr ddychmygu ei syndod, ar ôl iddo gael ei hysbysu’n ddiweddar gan breswylydd fod ei enw ei hun a’i swydd fel Maer yn cael eu defnyddio’n dwyllodrus.

Daeth i'r amlwg bod y preswylydd dan sylw wedi derbyn e-bost o gyfrif ffug a sefydlwyd i edrych fel petai'n perthyn i Faer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn yr e-bost, gofynnodd y sgamiwr sy’n defnyddio fy enw i’r preswylydd a allent wneud cymwynas i ‘fi’ drwy brynu gwerth cannoedd o bunnoedd o gardiau rhodd digidol ac addawodd eu had-dalu ar unwaith.

Wrth weld y negeseuon gan y sgamiwr, roedd sawl peth yn sefyll allan ar unwaith. Y peth cyntaf i mi sylwi oedd bod yr e-bost yn llawn o gamgymeriadau sillafu a gramadeg gwael ac wedi cael ei roi at ei gilydd yn wael.

Y cliw mawr arall oedd y cyfeiriad e-bost ffug, nad oedd yn diweddu gyda chyfeiriad gov-dot-UK, ac rwyf wedi fy arswydo bod rhywun wedi ceisio defnyddio fy enw a fy swydd fel Maer mewn modd mor droseddol.

Yn anffodus, mae'n ymddangos bod hwn yn sgam eithaf cyffredin sydd bron bob amser yn golygu dynwared rhywun ac anfon e-bost at eu ffrindiau, aelodau o'u teulu, pobl y maent wedi'u cefnogi trwy swydd gyhoeddus neu gwsmeriaid y gallent fod wedi gwneud busnes â nhw.

Anogodd y Maer bobl i aros yn wyliadwrus ac i roi gwybod am bob sgam a amheuir i wefan Action Fraud, yn ddi-oed.

Ar nodyn hapusach, roedd wrth ei fodd yn mynychu llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y cyngor ac arbenigwyr ynni gwyrdd o Japan, Marubeni.

Roedd hwn yn gytundeb partneriaeth nad oedd yn rhwymol a oedd yn nodi sut mae'r ddau sefydliad yn bwriadu cydweithio i archwilio a datblygu menter ynni hydrogen newydd ar raddfa fawr.

Dewiswyd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn benodol gan Marubeni fel y lleoliad a ffefrir yn y DU ar gyfer prosiect arddangos hydrogen gwyrdd, yn dilyn trafodaethau â Llywodraeth Cymru.

Ei nod oedd creu safle a allai gynhyrchu a chydbwyso cyflenwad a storio ynni gwyrdd cost isel a gallai weithredu fel arloeswr trwy gynhyrchu tanwydd glân ar gyfer cerbydau fflyd, yn amrywio o lorïau graeanu cynghorau i lorïau ailgylchu a chasglu sbwriel.

Gellid ei ymestyn hefyd i gynnwys cerbydau ymateb brys a ddefnyddir gan wasanaethau golau glas a bydd yn ystyried sut y gellir defnyddio tanwydd hydrogen i wresogi adeiladau a chyfleusterau fel ysgolion, cartrefi preswyl Gofal Ychwanegol, pyllau nofio lleol a mwy.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cefnogi datblygiad y prosiect ac wrth i'r prosiect ddatblygu, mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd hefyd wedi cytuno mewn egwyddor i ystyried y cyfle i wneud buddsoddiad pellach.

Gan ddibynnu ar ba mor llwyddiannus yw'r cynllun, yna gellid ei gyflwyno ledled y DU.

Bydd unrhyw un sydd wedi llenwi eu car yn ddiweddar yn gwybod ei bod yn dod yn fwyfwy pwysig dod o hyd i ffynonellau amgen o ynni glân, gwyrdd rhad.

Mae gan y cynllun hwn y potensial nid yn unig i gyfrannu at ein targedau datgarboneiddio ein hunain, ond gallai helpu i gyrraedd targedau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar sicrhau sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030 a sefydlu safleoedd cynhyrchu hydrogen adnewyddadwy fel rhan o agenda Cymru Sero Net.

Roedd y Maer yn edrych ymlaen at weld y prosiect yn gwneud cynnydd yn yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

<u>Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar</u>

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, fod Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr wedi dathlu ei ben-blwydd cyntaf yn ddiweddar a wedi bod yn myfyrio ar flwyddyn a neilltuwyd i wella gofal maeth i blant ar draws y fwrdeistref sirol.

Fel y bydd yr aelodau'n gwybod efallai, mae Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o rwydwaith maethu Cymru gyfan o wasanaethau maethu dielw, sy'n cynnwys pob un o'r 22 tîm awdurdod lleol.

Dros y 12 mis diwethaf, mae gofalwyr maeth awdurdodau lleol wedi dod at ei gilydd i ddarparu cymorth hanfodol i bobl ifanc a rhieni agored i niwed, gyda 163 o deuluoedd maethu newydd wedi'u ffurfio.

Fodd bynnag, mae angen recriwtio oddeutu 700 o ofalwyr maeth a theuluoedd newydd ledled Cymru o hyd, tra bod y wlad yn wynebu argyfwng parhaus o ran costau byw.

Mae tîm Maethu Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr am annog mwy o bobl i ddechrau maethu drwy eu hawdurdod lleol, fel y gall plant aros yn eu hardal leol, yn agos at eu ffrindiau a'u teuluoedd ac yn eu hysgolion.

Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod 84 y cant o bobl ifanc sy'n cael eu maethu gan eu hawdurdod lleol wedi aros yn eu hardal leol gyfagos y llynedd.

Mewn cymhariaeth, symudwyd 77 y cant o blant sy'n derbyn gofal gan asiantaethau maethu masnachol o'u hardal leol i ddod o hyd i leoliadau maeth. Symudwyd bron i chwech y cant o blant allan o Gymru yn gyfan gwbl.

Mae ein tîm maethu ym Mhen-y-bont ar Ogwr am gefnogi Llywodraeth Cymru yn ei nod i gael gwared ar yr elfen elw o'r system ofal, gan sicrhau bod buddiannau pobl ifanc yn parhau i fod wrth wraidd y broses a chynnig sefydlogrwydd i ofalwyr maeth drwy dimau awdurdod lleol hirsefydlog a phrofiadol.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi ein gofalwyr maeth ymroddedig, gweithgar trwy wneud bywyd hyd yn oed yn well i blant a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Byddwn yn edrych ar gynnig y cymorth ariannol sydd ei angen ar ofalwyr i ddarparu cyfleoedd a sefydlogrwydd i blant a pharhau ag arfer gorau ar gyfer paru, trwy gael cronfa eang o deuluoedd maeth i ddewis y rhai sy'n gweddu orau er lles y gofalwr maeth a'r plentyn. Hyd yn oed pan drefnir lleoliadau mewn argyfwng, galluogi gweithwyr cymdeithasol i gyflwyno'r plentyn i'w gofalwr maeth cyn cael ei groesawu i'r cartref.

Dyma pam mae gwasanaethau maethu dielw awdurdodau lleol yn gweithio ochr yn ochr ag ysgolion a gweithwyr cymdeithasol plant i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r cyfleoedd neu'r heriau penodol yn ein hardal leol.
Wrth gloi, dywedodd ein bod yn gwneud hyn ar gyfer y tymor hir, am y rhesymau cywir, ac yn bennaf oll, i'r plant eu hunain.

Aelod Cabinet – Addysg

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Addysg fod cam nesaf y cynllun talebau talu digidol newydd ar fin cael ei ddosbarthu i deuluoedd cymwys.

Wedi'i gynllunio i sicrhau na fydd plant sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn llwglyd dros wyliau'r haf, bydd y talebau £39 yn cael eu rhoi mewn tri cham a byddant yn darparu hyd at bythefnos o fwyd yr un.

Bydd hi'n bosibl eu defnyddio yn unrhyw un o'r 28,000 o siopau Pay Point yn y DU, a bydd y talebau'n parhau'n ddilys tan y cyntaf o Fedi, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y cyngor.

Roedd yn sicr y byddai'r aelodau hefyd am ymuno ag ef i longyfarch nifer o'n staff ysgol ar orchestion arwyddocaol diweddar.

Mae Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru wedi enwi Meurig Jones o Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn Bennaeth y Flwyddyn eleni, tra bod Gill Sullivan o Ysgol Maesteg hefyd wedi'i henwebu yn eu categori 'Cefnogi Addysgu a Dysgu'.

Draw yn Ysgol Gynradd Penybont, mae'r athrawes Jemma Evans wedi cipio gwobr 'Athro'r Flwyddyn' yng Ngwobrau Into Film am ymgorffori technegau ffilm yn ei gwersi.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Addysg i'r tri unigolyn am ennill y gwobrau hyn.

Cabinet Member – Adfywio

Roedd yr Aelod Cabinet – Adfywio, yn falch o gadarnhau bod cwmni Cymreig John Weaver Contractors Ltd wedi'i benodi i ddarparu cyfleusterau cymunedol cwbl newydd yn Cosy Corner, Porthcawl.

Mae gweithwyr ar fin dechrau gosod y sylfaen ar gyfer adeilad cwbl newydd wedi'i orchuddio â cherrig a gwydr ac ardal allanol wedi'i thirlunio y gall ymwelwyr a thrigolion ei mwynhau.

Bydd y prosiect £2.4 miliwn hwn yn ymgorffori adeiladau sy'n addas ar gyfer pum uned fanwerthu fechan, toiledau cyhoeddus, mannau cyfarfod at ddefnydd y gymuned, swyddfeydd ar gyfer yr harbwrfeistr, cyfleusterau newid ar gyfer defnyddwyr y marina gerllaw a mwy.

Bydd y safle hefyd yn cynnwys ardal chwarae awyr agored i blant, digonedd o seddi cyhoeddus, lle ar gyfer llwyfannu digwyddiadau a chanopi pob tywydd a all ddarparu lloches awyr agored gyfforddus rhag glaw a'r haul.

Mae wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru a disgwylir iddo fod yn barod erbyn gwanwyn 2023.

Bydd y prosiect newydd cyffrous hwn yn cefnogi ein cynlluniau parhaus ar gyfer datblygu'r Llyn Halen ac ardaloedd y glannau a bydd yn ategu prosiectau adfywio eraill fel y marina newydd, amddiffynfeydd morol newydd, Adeilad Jennings a adferwyd yn ddiweddar a gwelliannau i'r morglawdd dwyreiniol.

Aelod Cabinet – Cymunedau

Roedd yr Aelod Cabinet – Cymunedau yn siŵr y bydd yr aelodau'n falch o glywed bod gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y rhaglen fuddsoddi sy'n adnewyddu ardaloedd chwarae ar draws y fwrdeistref sirol ac yn darparu offer newydd.

Mae'r gwaith yn cael ei wneud gan y tîm Mannau Gwyrdd, ac erbyn diwedd y mis, rydym yn rhagweld y bydd ardaloedd chwarae wedi'u lleoli yng Nghwm Ogwr, Nottage, Evanstown, Wildmill a Chaerau wedi'u cwblhau.

Yna, ym mis Medi, bydd y gwaith yn symud ymlaen i ardaloedd chwarae yng Nghwm Ogwr, Porthcawl, Abercynffig a Thondu.

Unwaith y bydd y cyfarpar newydd wedi'i osod, mae gwaith pellach ar y gweill a fydd yn darparu dodrefn stryd wedi'u hadnewyddu er budd plant a theuluoedd lleol.

Byddai newyddion pellach am y rhaglen fuddsoddi yn cael ei drosglwyddo i'r aelodau, wrth iddi fynd rhagddi.

Roedd hefyd yn sicr y byddai'r aelodau wedi nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud y tu allan i'r Swyddfeydd Dinesig i adnewyddu ac uwchraddio'r goleuadau traffig ar y gyffordd rhwng Stryd yr Angel a Stryd y Parc.

Dyma hefyd oedd y system goleuadau traffig dros dro gyntaf o'i bath i gael ei threialu yng Nghymru, ac mae dadansoddiad cynnar o'i pherfformiad wedi datgelu iddi fod yn llwyddiant mawr.

Wedi'i chynllunio i ddynwared gosodiad y goleuadau traffig gwreiddiol, mae'r system yn sicrhau bod llif y cerbydau drwy'r gyffordd brysur yn gallu parhau mor normal â phosibl ac yn cyfyngu ar yr angen i giwio'n ddiangen.

Mae hyn wedi cefnogi'n fawr y gwaith o adnewyddu'r goleuadau traffig presennol, sy'n angenrheidiol gan eu bod bellach yn fwy na 25 mlwydd oed, ac mae hefyd yn helpu gyda'n hymdrechion i wella ansawdd aer.

Mae'n sicr wedi bod o fudd mawr o ran lleihau aflonyddwch i yrwyr, ac rwy'n siŵr y gallwn ddisgwyl gweld y trefniadau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith tebyg yn y dyfodol ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Diolchodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau i'r Swyddogion yn y tîm Goleuadau Stryd am gyflwyno'r fenter hon.

<u>Aelod Cabinet – Adnoddau</u>

Absennol - Dim cyhoeddiadau

<u>Aelod Cabinet - Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant</u>

Absennol - Dim cyhoeddiadau

<u>Prif Weithredwr</u>

Absennol - Dim cyhoeddiadau

32. <u>DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD</u>

Cyhoeddodd yr Arweinydd ei fod yn ymwybodol bod sïon ar led am ddatblygiad siop fwyd Aldi ym Mhorthcawl, gyda rhai'n honni bod y cwmni wedi tynnu'n ôl oherwydd materion yn ymwneud â halogi tir.

Roedd yn hapus i gadarnhau nad oedd hyn yn wir o gwbl.

Nid oes unrhyw broblemau gyda thir y safle, ac mae'r prosiect yn symud ymlaen i fel y cynlluniwyd ar y cyfan.

Yn ddiweddar, cadarnhaodd y cwmni i ni fod y paratoadau cychwynnol ar fin cael eu cwblhau, a bod contractwyr yn cael eu paratoi ar gyfer y gwaith adeiladu i ddechrau ar y safle dwy erw.

Fel y gwyddai'r aelodau, bwriad y datblygiad yw darparu porth nodedig i'r dref tra'n creu hyd at 40 o swyddi llawn amser i bobl leol.

Mae'r holl arian a gynhyrchir o werthu'r tir yn cael ei ail-fuddsoddi ym Mhorthcawl i gefnogi gwelliannau seilwaith lleol a chamau pellach y cynlluniau adfywio cyffrous.

Yn ystod y gwaith o adeiladu'r siop, bydd maes parcio cyhoeddus yn parhau i fod ar gael yn Salt Lake a Hillsboro Place, ac mae cynlluniau ar wahân yn cael eu datblygu ar gyfer creu adeilad aml-lawr cwbl newydd yn Hillsboro Place.

Os bydd popeth yn mynd rhagddo fel y cynlluniwyd, gallwn ddisgwyl gweld siop newydd Aldi yn agor ei drysau yn haf 2023.

Cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod yn falch o fynychu digwyddiad yn ddiweddar ynghyd â'r Dirprwy Arweinydd, y Maer a chydweithwyr yn y Cabinet i nodi deng mlynedd ers y bartneriaeth barhaus rhwng y cyngor a Halo Leisure, Menter Gymdeithasol.

Pan ffurfiwyd y bartneriaeth yn ôl yn 2012, mae'n bosibl y bydd aelodau'n cofio iddi gael ei beirniadu fel un a fyddai’n siwr o fethu.

Diolch byth, mae'r gwrthwyneb wedi profi i fod yn wir, ac yn y deng mlynedd o weithredu, mae ymweliadau cwsmeriaid wedi cynyddu 2.35 miliwn o bobl y flwyddyn.

Mae wedi galluogi mwy na £7 miliwn i gael ei fuddsoddi yn ôl mewn mentrau lleol ac wedi arwain at waith adnewyddu mawr a chyflwyno cyfleusterau newydd ar safleoedd Halo ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Cwm Garw, Cwm Ogwr, Pencoed, y Pîl, Maesteg ac Ynysawdre.

Mae mwy na 32,900 o wersi nofio wedi’u darparu i 2.1 miliwn o blant lleol yn yr amser hwnnw, a phe na bai cyfyngiadau symud y pandemig wedi gorfodi canolfannau i gau eu drysau, rwy’n siŵr y byddem hefyd yn edrych ar fwy na miliwn o ddosbarthiadau ymarfer corff grŵp wedi’u darparu ar gyfer bobl leol.

Mae’r bartneriaeth hon wedi cyflawni popeth yr oeddem ei eisiau a mwy ac fe’i cydnabuwyd yn 2016 pan ddaeth y gyntaf yng Nghymru i gael sgôr ‘Rhagorol’ gan wasanaeth meincnodi cenedlaethol y diwydiant.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn edrych ymlaen at yr hyn a ddaw yn ystod y deng mlynedd nesaf, a diolchodd i bawb sydd wedi helpu i wneud hwn yn llwyddiant ysgubol.

Yn olaf, efallai yr hoffai aelodau hysbysu eu hetholwyr y bydd y rhaglen flynyddol o weithgareddau i blant – yr Haf o Hwyl – yn rhedeg eto eleni mewn partneriaeth â sefydliadau fel Halo a’n cynghorau tref a chymuned lleol.

Yn ogystal â chefnogi rhieni a theuluoedd, mae hyn yn sicrhau y gall plant a phobl ifanc fwynhau gweithgareddau hwyliog, cyffrous yn ystod gwyliau ysgol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae amrywiaeth enfawr o weithgareddau cymunedol yn cael eu cynnal, felly p'un a yw plant yn mynd i feicio BMX, pêl-droed neu eisiau rhoi cynnig ar syrffio a byw yn y gwyllt, mae rhywbeth at ddant pawb, ychwanegodd.

Mae’r rhaglen o ddigwyddiadau’n cynnwys cynlluniau Active 4 Life ym Mhorthcawl, Bracla, Maesteg a Phencoed, a Sialens Ddarllen yr Haf boblogaidd sy’n cael ei darparu gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ym mhob un o Lyfrgelloedd Sir Arwen.

Mae Halo Leisure yn darparu gweithgareddau fel sesiynau nofio am ddim ac am y tro cyntaf, bydd Clwb Plant newydd yn cynnal digwyddiadau am ddim gan ddefnyddio’r sgwâr ym Marchnad Dan Do Pen-y-bont ar Ogwr.

Ym Mharc Gwledig Bryngarw, bydd plant yn cael mwynhau gweithgareddau sy’n amrywio o rwydo mewn pyllau i sioeau fel ‘Awful Auntie’ David Walliams, a bydd sefydliadau fel Menter Bro Ogwr a’r Urdd hefyd yn darparu gweithgareddau i blant Cymraeg eu hiaith.

Mae gweithgareddau newydd yn cael eu hychwanegu drwy'r amser, a dylai unrhyw un sydd eisiau darganfod mwy gael eu cyfeirio at dudalennau gwe Haf o Hwyl yn www.bridgend.gov.uk

33. CANLYNIAD Y RHAGLEN GYFALAF 2021-22 AC ADRODDIAD DIWEDDARU CHWARTER 1 2022-23

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad ar yr uchod, a’r pwrpas oedd:-

- cydymffurfio â gofyniad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ‘Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol’ (argraffiad 2021);
- darparu manylion yr alldro cyfalaf ar gyfer 2021-22 (Atodiad A i'r adroddiad);
- darparu diweddariad o'r sefyllfa gyfalaf ar gyfer 2022-23 ar 30 Mehefin 2022 (Atodiad B);
- ceisio cymeradwyaeth ar gyfer rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022-23 i 2031-32 (Atodiad C);
- nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelir ar gyfer 2021-22 a 2022-23 (Atodiad D)

Eglurodd fod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 fel y'u diwygiwyd, yn cynnwys darpariaethau manwl ar gyfer rheolaethau cyllid cyfalaf a chyfrifyddu, gan gynnwys y rheolau ar ddefnyddio derbyniadau cyfalaf a'r hyn sydd i'w drin fel gwariant cyfalaf. Maent yn addasu arferion cyfrifyddu mewn amrywiol ffyrdd i atal effeithiau andwyol ar adnoddau refeniw awdurdodau.

Yn ogystal â’r ddeddfwriaeth, mae’r Cyngor yn rheoli ei weithgareddau Rheoli’r Trysorlys a Chyfalaf yn unol â’r canllawiau cysylltiedig a ganlyn:-

1. Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli’r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus;
2. Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol;
3. Canllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru (LlC) ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol

Cadarnhaodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid, ar 24 Chwefror 2021, fod y Cyngor wedi cymeradwyo cyllideb cyfalaf o £62.363 miliwn ar gyfer 2021-22 fel rhan o raglen gyfalaf ar gyfer y cyfnod 2021-22 i 2030-31 a bod y Cyngor yn derbyn diweddariadau a diwygiadau a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn. Er i'r Cyngor gymeradwyo cynlluniau newydd ar gyfer rhaglen gyfalaf 2022-23 ar 22 Mehefin, cafodd y rhaglen ar gyfer 2021-22 ei diweddaru ddiwethaf a'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 23 Chwefror 2022. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Alldro Rhaglen Gyfalaf 2021-22;
- Monitro Rhaglen Gyfalaf chwarter 1 2022-23;
- Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022-23 i 2031-32;
- Monitro’r Strategaeth Gyfalaf;
- Dangosyddion darbodus a dangosyddion eraill

Mae paragraffau 4 o’r adroddiad wedyn yn rhoi naratif manwl ar Sefyllfa Alldro’r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021-22, gydag Atodiad A yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am y gwahanol gynlluniau o fewn y Rhaglen a’r gyllideb oedd ar gael o gymharu â’r gwariant

gwirioneddol. Mae hyn yn cynnwys mewn fformat pwyntiau bwled, rhai diwygiadau i Raglen 2021-22, gan gynnwys gwybodaeth am lithriad rhai o'r cynlluniau hyn.

Mae Adran 4.2 o'r adroddiad, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Raglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2022-23 ers i'r gyllideb gael ei chymeradwyo ddiwethaf gan y Cyngor, ac mae hyn yn ymgorffori unrhyw gynlluniau newydd o'r fath a chymeradwyaeth grantiau.

Mae Tabl 1 yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth ar gyfer 2022-23, gyda Thabl 2 (ym mharagraff 4.2.2) yn crynhoi'r tybiaethau ariannu cyfredol ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod uchod.

Yna cyfeiriodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid at Atodiad B yr adroddiad, sy'n rhoi manylion y cynlluniau unigol yn y Rhaglen Gyfalaf, gan ddangos y gyllideb sydd ar gael yn 2022-23 o'i chymharu â'r gwariant a ragwelir ar 30 Mehefin 2022.

Roedd yr adran hon o'r adroddiad yn dangos cynlluniau newydd a diwygiedig ers cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwethaf. Ychwanegodd fod Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig felly yn cael ei dangos yn Atodiad C yr adroddiad.

Roedd gweddill y cyflwyniad yn ymwneud â gwybodaeth am Ddangosyddion Darbodus a Dangosyddion Eraill 2022-23 (Monitro) a Monitro'r Strategaeth Gyfalaf.

Cyfeiriodd Aelod at 4.1.21, tudalen 25 o'r adroddiad, lle nododd fod y Cyngor wedi derbyn cyllid o £1.162 miliwn ar gyfer prydau ysgol am ddim. Gofynnodd i'r Arweinydd a fyddai hyn yn caniatáu i weinyddiaeth CBSPAO gyflawni ei hymrwymiad maniffesto o ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd erbyn mis Medi 2023.

Roedd ganddo gwestiwn pellach ar addysg, mewn perthynas â pharagraff 4.1.4 ar dudalen 26 o'r adroddiad mewn perthynas â chynnal cyfalaf ysgolion. Mae'r adroddiad yn cadarnhau y bu sawl achos o danwariant oherwydd argaeledd adnoddau mewnol ac allanol, sydd wedi golygu bod y grant dan sylw wedi'i ddefnyddio i ariannu amrywiol gynlluniau eraill yn y Rhaglen Gyfalaf. Gofynnodd beth oedd y cynlluniau hyn.

Yn olaf, unwaith eto ar dudalen 26, nododd yr adroddiad fod £1.677 miliwn o gyllid ar gyfer Mân Waith Cyfalaf wedi llithro oherwydd oedi wrth gwblhau nifer o gynlluniau. Roedd ganddo ddiddordeb mewn gwybod pa gynlluniau oedd wedi'u gohirio.

Dywedodd yr Arweinydd, yn anffodus, oherwydd costau cynyddol, bod pum ysgol heb geginau ar hyn o bryd ac felly nid oedd ganddynt y gallu i goginio unrhyw brydau, gan gynnwys prydau ysgol am ddim.

Y nod, ychwanegodd yr Arweinydd, oedd y byddai prydau ysgol am ddim ar gael i bob disgybl oed Derbyn o fis Medi nesaf ymlaen a phlant oed Babanod hefyd. Byddai pawb o oedran ysgol gynradd ar y pryd yn derbyn y trefniant hwn erbyn Medi 2024.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd, fod ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pob disgybl cynradd yn cael cynnig pryd ysgol am ddim erbyn Medi 2024. Roedd gwaith yn mynd rhagddo gan y Cyngor i gyrraedd y targed hwn.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac fel y cyhoeddwyd nôl yn 2021, yr unig ymrwymiad ffurfiol yr oedd yn ymwybodol ohono o safbwynt Llywodraeth Cymru, oedd i holl ddysgwyr yr ysgolion cynradd gael cynnig prydau ysgol am ddim erbyn Medi 2024. O ran y ddau gwestiwn arall, byddai'n rhaid iddo ddarparu gwybodaeth bellach i'r Aelod y tu allan i'r cyfarfod, gan eu bod yn dod o dan adain Landlordiaid Corfforaethol y Cyngor

gan eu bod yn ymwneud â chynlluniau cynnal a chadw cyfalaf. Roedd unrhyw oedi i'r cynlluniau y cyfeiriwyd atynt yn ganlyniad i bwysau adnoddau a chyflenwad mewnol, yn ogystal â phwysau COVID-19 a chost gynyddol y deunyddiau a chostau contractwyr eraill. Roedd hynny'n golygu bod rhai o'r cynlluniau arfaethedig wedi'u hadolygu o ran manyleb a'u hail-dendro, ac mae hynny'n anochel wedi arafu rhywfaint o'r gwaith.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chefnogi Teuluoedd, y byddai'n rhoi rhestr lawn o gynlluniau mewn perthynas â'r mân waith y tu allan i'r cyfarfod i'r Aelod, er bod y rhestr hon yn parhau heb ei newid gyda swyddogion yn gweithio drwy'r rhain ar sail blaenoriaethu, er bod rhywfaint o waith dal i fyny oherwydd y problemau a gafwyd hyd yma. Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda chydweithwyr ym maes caffael i sicrhau bod y cynlluniau'n cael sylw, er mwyn sicrhau cynnydd pellach boddhaol ar y rhain.

Yna gofynnodd yr Aelod gwestiwn pellach mewn perthynas â thudalen 29 o'r adroddiad ar Y Gronfa Ffyniant Bro. Roedd yn ymwybodol bod amcangyfrif cost Pont Ffordd Penprysg ym Mhencoed yn £20m ychydig fisoedd yn ôl. Gofynnodd felly, pam fod y gost hon bellach wedi codi i £25m.

Yn olaf, gofynnodd a ellid ystyried Heol-y-Cyw rywbryd yn y dyfodol, fel llwybr cysylltiad Teithio Llesol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod cost y gwaith wedi cynyddu ar gyfer Pont Ffordd Penprysg, h.y. costau dichonoldeb. Nid oedd y bont wedi'i dylunio'n llawn eto, er bod hwn yn waith a gomisiynwyd gyda Network Rail ond sydd eto i'w gwblhau.

Amcangyfrifwyd yn wreiddiol mai tua £19m fyddai'r gost, ond mae cydweithwyr yn Network Rail wedi cynghori CBS Pen-y-bont ar Ogwr y bydd hyn yn llawer mwy wrth symud ymlaen. Gyda chwyddiant ar hyn o bryd yn 9.4%, ac o ystyried ei bod yn debygol na fydd y gwaith o gwblhau'r bont yn digwydd tan Wanwyn 2026, os byddwn yn llwyddiannus gyda'n cais i'r Gronfa Ffyniant Bro, mae'r costau wedi'u hailamcangyfrif i tua £25m, er mwyn sicrhau y bydd digon o arian yn y cais i symud y gwaith yn ei flaen yn llawn.

Ychwanegodd, oherwydd bod chwyddiant a chostau deunyddiau yn codi bron yn ddyddiol, ei bod yn dod yn fwyfwy anodd nodi'r gost yn gywir ar gyfer y gwahanol gynlluniau sy'n rhan o'r Rhaglen Gyfalaf a bod hon yn broblem a brofir gan awdurdodau lleol ar draws y DU gyfan.

O ran Teithio Llesol, roedd CBSP wedi gwneud cymaint o waith ag unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru. Ychwanegodd y byddai'n hapus i drafod hyn gyda'r Cynghorydd, h.y. y posibilrwydd o gael llwybr teithio llesol pellach yn Heol-y-Cyw a gobeithio y byddent yn dod o hyd i rai opsiynau dichonadwy o ran sut i gyflawni hyn.

Nododd Aelod o ddarllen yr adroddiad fod rhywfaint o lithriad mewn arian ar gyfer datblygiad Heol Ewenni, sef swm o £2.26 miliwn. Nododd fod yr adroddiad yn sôn am adolygiad i gwmpas peirianneg y gwaith ac i fanyleb y gwaith. Gofynnodd am rywfaint o eglurhad na fyddai unrhyw ddiwygiad o'r fath yn arwain at ostwng disgwyliadau, nac yn effeithio ar y gwaith eang sydd ei angen ar y safle.

Gofynnodd hefyd a oedd mwy nag un tendrwr ar gyfer y gwaith wedi cyflwyno dyfynbris i sicrhau ein bod yn cael manyleb gwaith cystadleuol a gwerth am arian ac yn olaf, gofynnodd pryd y byddai'r gwaith yn cael ei wneud.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod y llithriad wedi digwydd oherwydd bod yn rhaid llunio cytundebau cyfreithiol, gan fod hwn yn brosiect rhanbarthol a oedd wedi'i gynllunio gyda'r 10 awdurdod lleol arall a oedd yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Fodd bynnag, roedd y broses hon bellach wedi'i chwblhau. Roedd oedi pellach hefyd wedi deillio o broblemau gyda halogiad y safle, a oedd bellach wedi cael sylw ac wedi'u datrys. Felly, byddai gwaith archwilio safle a chynllunio yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl.

Mewn perthynas â thendro'r gwaith, ychwanegodd y derbyniwyd mynegiant o ddiddordeb gan fwy nag un tendrwr, fodd bynnag, dim ond un tendrwr oedd yn bodloni holl ofynion manyleb y gwaith.

Gofynnodd yr Aelod pa mor amlwg oedd y rhaglen gyfalaf o fewn Cofrestr Risg yr Awdurdod. Oherwydd cynnydd mewn chwyddiant, anawsterau o ran cael llafur a deunyddiau a phrinder sgiliau cenedlaethol, ymhlith rhesymau eraill, gofynnodd a oedd ymarfer parhaus ar y gweill yn edrych ar y gallu i gyflawni gwahanol ddarnau o waith a allai, yn anffodus, wynebu anawsterau economaidd yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid nad yw'r rhaglen gyfalaf fel y cyfryw yn risg unigol ar y rhaglen. Fodd bynnag, roedd nifer o risgiau wedi'u nodi yn yr Asesiad Risg Corfforaethol, a fyddai'n cwmpasu'r union faterion yr oedd yr Aelod newydd eu codi, er enghraifft, byddai'r gofrestr risg yn edrych ar faterion fel effaith chwyddiant ar gyfer gwaith a dendrwyd. Byddai hefyd yn archwilio'r gallu i dendro'n llwyddiannus am wahanol ddarnau o waith.

Roedd CBSPAO am i gwmnïau nid yn unig gyflwyno tendrau am waith, ond roedd hefyd angen i'r cwmnïau hyn gyflawni'r gwaith i safon uchel a oedd hefyd yn bodloni ein gofynion caffael.

Atgoffodd yr Aelodau hefyd fod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yn monitro ac yn diweddaru'r Gofrestr Risg o bryd i'w gilydd fel rhan o'i gylch gorchwyl.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau fod y Cyngor bellach yn ystyried risgiau wrth gefn yn y dogfennau Contract sy'n cael eu hanfon a'u dychwelyd fel rhan o'r broses dendro, oherwydd y cynnydd mewn costau, fel diesel a deunyddiau, ac ati.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 36 o'r adroddiad, lle dywedodd fod tanwariant o £49k mewn prosiect llwybr diogel. Dyma gyllid penodol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect hwn. Roedd yna hefyd nifer o brosiectau tebyg i hyn oedd yn dangos tanwariant yn eu herbyn. Os yw'r arian hwn o gyllid Llywodraeth Cymru yn ymwneud yn benodol â'r prosiectau hynny, gofynnodd i ble'r oedd y tanwariant yn mynd. A fyddai modd ei wario ar brosiectau llwybrau diogel eraill, neu a fyddai'n cael ei ddyrannu i gronfa ganolog y Cyngor.

Gofynnodd yr Aelod hefyd am esboniad ynghylch beth oedd yn fân waith cymunedol a chynlluniau priffyrdd bach.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau ein bod yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llwybrau diogel i ysgolion I ar ffurf swm sylweddol iawn. Mae'r tanwariant y cyfeirir ato, yn fach iawn mewn perthynas â hyn a phe na bai'r Cyngor yn gallu gwario'r holl ddyraniadau cyllid hyn mewn un flwyddyn, byddai'n gofyn i Lywodraeth Cymru a allai symud yr arian drosodd i'r flwyddyn ganlynol, neu fel arall, ei neilltuo fel y gellir ei ddefnyddio yn y pen draw i'r pwrpas gwreiddiol.

Ychwanegodd mai darnau bach iawn o waith oedd y rhain o ran y mân waith cymunedol a chynlluniau priffyrdd bach. Er enghraifft, fel mân newidiadau i briffyrdd, symud

goleuadau stryd, mân atgyweiriadau, efallai ymyl palmant isel, ac ati. Roedd cyllideb cynlluniau bach at y diben hwn ar gyfer gwaith ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau fod y Cyngor wedi neilltuo swm sylweddol o arian ar gyfer cynlluniau gwella priffyrdd yn y dyfodol ac roedd yn falch iawn o atgoffa'r Aelodau o hyn.

Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at dudalen 45 o'r adroddiad, lle cyfeiriwyd at arian Cytundebau A106 ac enghraifft o lithriad o £246k a oedd wedi'i drosglwyddo i'r flwyddyn ariannol hon. Roedd hi'n ymwybodol bod gan yr awdurdod lleol gyfnod o bum mlynedd i wario dyraniadau A106 ar ddatblygiadau safleoedd gwahanol, felly gofynnodd am sicrwydd na fyddai'r Cyngor byth yn rhoi ei hun mewn sefyllfa lle byddai unrhyw arian o'r fath yn cael ei roi yn ôl i'r datblygwyr pe na baent yn gwario’r arian o fewn y cyfnod uchod.

Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yr Aelodau y byddai'r Cyngor bob amser yn gwario'r dyraniadau hyn o fewn y cyfnod o bum mlynedd gan fod angen yr arian hwn i ddarparu cyfleusterau ar y safle, fel maes chwarae i blant efallai neu asedau a gwelliannau eraill a allai fod yn ofynnol fel rhan o’r datblygiad. Rhoddwyd cytundebau cyfreithiol mewn lle i'r pwrpas hwn, er mwyn gwarchod yr arian hwn, ychwanegodd.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor:

- Yn nodi’r alldro cyfalaf ar gyfer 2021-22 (Atodiad A i'r adroddiad)
- Yn nodi diweddariad Chwarter 1 Rhaglen Gyfalaf 2022-23 y Cyngor hyd at 30 Mehefin 2022 (Atodiad B)
- Yn cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad C)
- Yn nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelir ar gyfer 2021-22 a 2022-23 (Atodiad D)

34. <u>ADRODDIAD AR SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad, a’i ddiben oedd rhoi trosolwg byr i’r Cyngor o’r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (MSR), fel sy’n ofynnol dan Adran 144B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Fel gwybodaeth gefndir, dywedodd fod deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoliadau sy’n nodi ffurf y rhain, materion i’w cynnwys, a’r cyfnod rhagnodedig ar gyfer cynnal asesiadau o sefydlogrwydd y farchnad fel y’i nodwyd yn Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021.

Mae’r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, fel bod yn rhaid i’r gwaith o baratoi a chyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad gael ei wneud ar sail rhanbarthol, gydag awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn gweithio gyda’i gilydd drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, fod Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad bob pum mlynedd, gyda'r adroddiadau cyntaf i'w cyhoeddi erbyn 1 Mehefin 2022. Roedd yr Etholiadau Llywodraeth Leol ar 5 Mai 2022 yn golygu nad oedd yn bosibl cael cymeradwyaeth i'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad nes bod Cynghorau newydd yn cael eu ffurfio.

Ychwanegodd y bydd yr adroddiad yn helpu i lywio a llunio'r cynllun ardal pum mlynedd nesaf, ynghyd ag asesiad anghenion poblogaeth Cwm Taf Morgannwg (CTM) 2022.

Wrth baratoi ar gyfer ymgymryd â'r adroddiad hwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod awdurdodau lleol, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol a phartneriaid eraill y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, wedi cynnal asesiad o'r canlynol:

- Digonolrwydd - asesiad o ddigonolrwydd gofal a chymorth i ddiwallu'r anghenion a'r galw am ofal cymdeithasol fel y nodir yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth. a
- Sefydlogrwydd - asesiad o sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig sy'n darparu gofal a chymorth.

Esboniodd fod pandemig COVID19 wedi bod yn her ddigynsail ac wedi newid y math o alw a'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn darparu gofal a chymorth. Cydnabyddir yr effaith ar bobl sydd angen gofal, a'u gofalwyr, ynghyd â'r pwysau parhaus ar y gweithlu ac ansicrwydd yn y farchnad.

Ym mis Ionawr 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn yn nodi eu huchelgais i ail-gydbwyso gofal a chymorth gan ddarparu economi gymysg gan sicrhau nad oedd gorddibyniaeth ar y sector preifat. Nod yr uchelgais oedd symleiddio'r trefniadau comisiynu presennol, cryfhau ansawdd a gwerth cymdeithasol a rheoli'r farchnad yn weithredol drwy drefniadau partneriaeth effeithiol.

Pwysleisiodd y dylid nodi ymhellach fod y Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i 'ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal' (tymor Senedd nesaf 2026-2031).

Roedd y diagram ym mharagraff 4.5 o'r adroddiad yn dangos y berthynas rhwng pob un o wahanol elfennau'r MSR, sut y byddant yn cyfrannu at ddatblygiad parhaus cynlluniau rhanbarthol a strategaethau a datganiadau comisiynu.

Yna dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod adran nesaf yr adroddiad yn adlewyrchu'r negeseuon allweddol o'r adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad, ac y byddai'r argymhellion yn cael eu harchwilio ymhellach o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, byrddau oedolion a phlant o fewn rhaglenni gwaith y dyfodol, fel y bo'n briodol.

Cyn derbyn cwestiynau o'r llawr, rhoddodd grynodeb o'r negeseuon allweddol a'r camau gweithredu a argymhellwyd yn deillio o wahanol elfennau'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (MSR), er budd yr Aelodau.

Roedd fersiwn llawn yr MSR ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad 1, gyda fersiwn gryno i'w gweld yn Atodiad 2.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Swyddog am yr adroddiad rhanbarthol hwn. Cadarnhaodd nad oedd yn syndod yn y maes hwn o waith i weld materion yn ymwneud ag anhawster recriwtio a chadw staff, o ystyried y galwadau ar y gwasanaeth a oedd wedi cynyddu'n sylweddol, yn enwedig ers dechrau'r pandemig.

Roedd hyn wedi arwain at beth anhawster o ran rhoi ymrwymiad llawn i'r amrywiol gynlluniau a strategaethau yn ymwneud â chomisiynu mecanweithiau cymorth gofal yn y dyfodol, gan gynnwys y math dielw ar gyfer pobl ifanc. Os yw awdurdodau lleol yn gallu ymrwymo'n llawn i ddarparu'r gwasanaethau hyn, mae angen darparu cymorth digonol gan y Llywodraeth Ganolog.

Gofynnodd Aelod pa fesurau ataliol oedd gan y Cyngor wrth symud ymlaen ar gyfer teuluoedd sydd angen ymyrraeth gynnar, er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu rhoi mewn sefyllfa o risg. Hefyd, gofynnodd a oedd y Cyngor wedi edrych ar unrhyw opsiynau o gefnogaeth well i Ofalwyr Maeth, er enghraifft tocynnau bws am ddim, mynediad am ddim/llai i gyfleusterau hamdden, ac ati.

Cadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd bod y Cabinet ddoe wedi ystyried adroddiad dan y teitl diweddariad Lwfansau Gofal Maeth ac os bydd y Cynghorydd yn darllen hwn, bydd yn gweld bod cryn dipyn o wybodaeth ynddo, gan gynnwys barn Gofalwyr Maeth am ddarpariaeth gwasanaeth y Cyngor.

Ychwanegodd fod gofynion gwasanaeth wedi cynyddu tua 200% yn ddiweddar a bod hyn yn profi'n anodd iawn i'w reoli, yn enwedig gan y dylai cefnogaeth i'r ddau Ofalwr Maeth fod yn hygyrch 24/7.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, bod ystod eang o gefnogaeth ar gael drwyddi hi a'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd, o ran cymorth cynnar a gwasanaethau atal a lles, gan gynnwys cefnogaeth gan staff ailuno a oedd yn amhrisiadwy.

Roedd y staff hyn yn cyflawni gwaith â ffocws mawr i gefnogi plant i ailuno â'u teuluoedd a sefydlogi lleoliadau a oedd mewn perygl o chwalu. Ychwanegodd fod ymdrechion hefyd yn cael eu gwneud yn barhaus, i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, lle mae hyn yn ddiogel ac er lles gorau'r plentyn. Ychwanegodd fod y Cyngor hefyd wedi cyflwyno Siarter Gofal Maeth a fyddai'n cefnogi Gofalwyr Maeth i ofalu am rai o'r plant mwyaf heriol, sydd wedi profi digwyddiadau anffodus yn gynnar yn eu bywydau.

Yn olaf, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, fod arolwg a gynhaliwyd fel rhan o'r Siarter Gofalwyr Maeth, yn cynnwys adborth ganddynt ar eu perthynas a'u profiadau gyda darparwyr eraill, ac y gellid rhannu'r canlyniadau llawn gyda'r Aelodau yn maes o law.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor:

- Yn nodi'r negeseuon allweddol a'r argymhellion; ac
- Yn cymeradwyo'r adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Ranbarthol

35. <u>MAINT AC AELODAETH Y PWYLLGOR SAFONAU</u>

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn cynnig newid i faint ac aelodaeth Pwyllgor Safonau'r Cyngor.

Cadarnhaodd y byddai aelodaeth y pwyllgor hwnnw, yn unol â'r rheoliadau statudol, yn cynnwys dim llai na phump a dim mwy na naw aelod.

Ar hyn o bryd roedd gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor saith aelod ac roedd y rhain wedi'u rhestru ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad. Byddai aelodau'n nodi bod y nifer hwn yn cynnwys tri aelod etholedig a phedwar aelod annibynnol.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro, mai dim ond pan fydd o leiaf tri aelod, gan gynnwys y cadeirydd yn bresennol ac o leiaf hanner yr Aelodau sy'n bresennol ar unrhyw un adeg, yn annibynnol y bydd y Pwyllgor Safonau â chworwm.

O ystyried y gofyniad hwn, roedd y pwyllgor ar adegau mewn perygl o beidio â chael y nifer gofynnol o aelodau ar gyfer cworwm mewn rhai cyfarfodydd, oherwydd

cydbwysedd yr aelodau etholedig ac annibynnol. Pe na bai aelodau annibynnol ar gael, fel oedd yn wir mewn cyfarfod diweddar pan, yn anffodus, efallai nad oedd cworwm mewn cyfarfod ac o ganlyniad, ni ellid bwrw ymlaen â’r busnes ar yr agenda.

Cynigiwyd felly bod aelodaeth y Pwyllgor Safonau yn cynyddu i wyth aelod i gyd, gydag Aelod annibynnol ychwanegol yn cael ei benodi i'r pwyllgor.

Yn unol ag adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, telir £105 i aelodau arferol y pwyllgor am hyd at gyfarfod pedair awr ac wedyn £210 am unrhyw gyfarfodydd sy'n fwy na'r amser hwn. Byddai’r costau ychwanegol hyn yn cael eu talu o’r ddarpariaeth a gedwir yn ganolog ar gyfer codiadau cyflog a phrisiau yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23.

Cadarnhaodd aelod o'r Pwyllgor Safonau ei fod yn cefnogi argymhellion yr adroddiad. Ychwanegodd fodd bynnag, y dylid rhoi ystyriaeth bellach y flwyddyn nesaf i gynyddu nifer y cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor, fel y bu yn y blynyddoedd blaenorol.

Yn amodol ar ystyried pwysau cyllidebol mewn perthynas â'r cynnig hwn, cadarnhaodd y Swyddog Monitro y gellid rhoi ystyriaeth bellach i'r cais hwn maes o law.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor:

1. Yn cymeradwyo aelodaeth a maint diwygiedig y Pwyllgor Safonau;
2. Yn derbyn adroddiad pellach yn dilyn y broses recriwtio;
3. Yn nodi y bydd y Cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r aelodaeth ddiwygiedig.

36. <u>CANLYNIAD AROLWG O AMSEROEDD CYFARFODYDD</u>

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar yr arolwg a gynhaliwyd yn ddiweddar, mewn perthynas â'r arolwg amseroedd cyfarfodydd; mae’r adborth ohono i'w weld yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Roedd manylion yr adborth ar bob Pwyllgor a'r amseroedd a ffefrir ar gyfer y rhain yn seiliedig ar ddymuniadau aelodau pob un o'r cyrff hynny, wedi'u nodi yn yr adroddiad o baragraff 4.3 ymlaen.

Er bod y wybodaeth yno i'r holl aelodau ei nodi, teimlai'r Swyddog Monitro ei bod yn bwysig nodi canlyniad yr arolwg a gynhaliwyd mewn perthynas â chyfarfodydd llawn y Cyngor. Roedd mwyafrif yr ymatebion a dderbyniwyd yma yn gofyn am amser cychwyn o 4:00pm ac felly, o fis Medi nesaf ymlaen, byddai cyfarfodydd y Cyngor yn cychwyn ar yr adeg hon. Fodd bynnag, gofynnodd i'r aelodau nodi bod adeilad y swyddfeydd Dinesig ar hyn o bryd yn cau am 6:30pm.

Felly, pan fydd y Cyngor yn cychwyn gyda chyfarfodydd hybrid, efallai y bydd angen cadw'r adeilad ar agor yn hwyrach na 6:30pm, pe bai angen hynny.

Roedd y rhaglen ddiwygiedig o gyfarfodydd o fis Medi 2022 wedi'i manylu ar gyfer aelodau yn Atodiad 2. Roedd un newid arfaethedig i'r amserlen mewn perthynas â Phwyllgor Craffu Testun 1, a fyddai, oherwydd gwrthdaro ag apwyntiad arall gan y Cyngor ar 12 Medi 2022, yn awr yn dechrau am 2:30pm a chytunwyd ar hynny yn dilyn cymeradwyaeth Cadeirydd y pwyllgor hwn.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor:

a) Yn nodi canlyniad yr arolwg o amseroedd cyfarfodydd fel y manylir arno yn Atodiad 1 yr adroddiad;

b) Yn cymeradwyo'r Rhaglen Gyfarfodydd arfaethedig o fis Medi 2022 fel y dangosir yn Atodiad 2, sydd wedi'i llunio o'r arolwg a'i datblygu gan ddefnyddio'r rhesymeg a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

37. ADRODDIAD GWYBODAETH I'W NODI

Adroddodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a'r Swyddog Polisi Corfforaethol (a Monitro), ar yr Adroddiad Gwybodaeth a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r ddogfen a restrir yn yr adroddiad.

38. DERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL GAN:

**Cynghorydd Martin Williams i'r Arweinydd**

A yw'r Arweinydd yn cytuno y dylai'r Cabinet wrthdroi ei bolisi o adennill costau llawn ar gyfer clybiau chwaraeon a digwyddiadau elusennol, gan roi terfyn ar orfodi clybiau a threfi i orfodi cynghorau cymuned i ymgymryd â throsglwyddiadau asedau neu wynebu cynnydd o hyd at 500% mewn ffioedd meysydd chwarae?

Ymhellach, ar ôl canslo'r polisi, a yw'n cytuno i barhau i gynnal a chadw cyfleusterau chwaraeon Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynnal y mannau chwarae i'r safon angenrheidiol wrth weithio gyda phob tîm ym mhob un o'r chwaraeon, y cyrff llywodraethu a chyngorau tref a chymuned i ddatblygu a gweithredu strategaeth chwaraeon a hamdden gynhwysfawr sy'n gweithio i bawb. Y nod yw sefydlu Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel yr awdurdod lleol mwyaf blaenllaw ar gyfer cynnal chwaraeon a hamdden yng Nghymru?

**Ymateb**

Ni fydd unrhyw glwb chwaraeon ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn profi adennill costau llawn yn eu ffioedd. Dyna'r sefyllfa ers 2020.

Cadarnhaodd y cyngor mewn adroddiad cyhoeddus i'r Cabinet yn 2020 na fyddai'n cyflwyno taliadau adennill costau llawn ar gyfer unrhyw glybiau ar yr amod eu bod yn ymrwymo i ymgymryd â hunanreoli naill ai trwy brydles lawn neu drwydded. Dywedwyd wrth y Cabinet bod y Cyngor yn 2020 wedi derbyn datganiadau o ddiddordeb ar gyfer ei holl feysydd chwarae a phafiliynau parciau naill ai gan Gynghorau Tref a Chymuned a/neu glybiau chwaraeon. Felly, ni fydd unrhyw glwb yn profi adennill costau llawn.

Ymhellach, mae'n bleser gennyf gadarnhau bod y Cyngor, am y 2 flynedd ddiwethaf (tymhorau 2020-21 a 2021-22), wedi ildio'r holl daliadau llogi ar gyfer defnyddio Pafiliynau Chwaraeon a Chaeau Chwarae a reolir gan yr Adran Parciau i gynorthwyo clybiau chwaraeon yn ystod cyfnod pandemig covid. Yn ogystal, creodd y Cyngor Gronfa Cymorth Chwaraeon Pen-y-bont ar Ogwr yn 2019-20, gan ddarparu cyllid o £75,000 i leihau effaith covid gyda grantiau o hyd at £1,000 i glybiau chwaraeon i gynorthwyo gyda chostau gweithredu o ddydd i ddydd. Darparwyd cyllid tebyg eto yn 2021-22 o dan Gronfa Cymorth Chwaraeon Pen-y-bont ar Ogwr gyda grantiau o hyd at £2,000 (Datblygu Clybiau) neu £3,500 (Datblygu Asedau) i gynorthwyo clybiau chwaraeon i adfer ar ôl y pandemig.

Mae asedau fel Pafiliynau Chwaraeon a Chaeau Chwarae ym Mryncethin a Rest Bay, Canolfannau Cymunedol a Mannau Chwarae a drosglwyddwyd o dan y rhaglen CAT wedi gweld gwelliannau sylweddol gyda chyllid cyfalaf o dan Gronfa CAT y Cyngor a buddsoddiad allanol o tua £1M gan Lywodraeth Cymru, Undeb Rygbi Cymru, y Loteri Genedlaethol a Chronfa Etifeddiaeth Gymunedol Ford. Mae'r Tîm CAT a'n partneriaid Cwmpas (Co-op Cymru gynt) ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo ar hyn o bryd yn gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned a grwpiau cymunedol ledled Pen-y-bont ar Ogwr fel y gellir cyflawni canlyniadau tebyg mewn mwy o ardaloedd.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd M Williams**

Wrth ateb y cwestiwn mae'r Arweinydd wedi cadarnhau nad yw'n bwriadu newid y polisi adennill costau llawn ac mae'r gorfodaeth ar glybiau i ymgymryd â threfniadau trosglwyddo asedau yn parhau. Fodd bynnag, nid atebodd fy mhwynt ynglŷn â digwyddiad elusennol ond dyna natur fy nghwestiwn atodol beth bynnag, felly mae ganddo gyfle i fyfyrio ar hynny.

Edrychais ar gyfarfod diwethaf y Cyngor Cyllideb ym mis Chwefror a hynny o bell. Cytunwyd bryd hynny gan y Cyngor hwn i gynyddu'r gost i adlewyrchu costau llawn digwyddiadau dydd arbennig fel Diwrnodau Hwyl Cymunedol a Race for Life ar eiddo CBSPAO neu ar gaeau chwarae CBSPAO. Nodaf gyda diddordeb y bydd picnic cymdeithasol a digwyddiad gwleidyddiaeth haf Llafur Ifanc Pen-y-bont ac Ogwr yn cael ei gynnal yng Nghaeau Trecelyn ddydd Sadwrn yma am 1:00PM. A gaf fi ofyn i'r Arweinydd, a fydd grŵp cymdeithasol haf Llafur Ifanc Pen-y-bont ac Ogwr yn talu'r ffioedd a godir ar sefydliadau eraill, fel Race for Life?

**Ymateb**

Nid wyf yn aelod o grŵp Llafur Ifanc Pen-y-bont ac Ogwr ac felly, nid wyf yn gwybod am y digwyddiad hwn. Gallaf ymchwilio iddo wrth gwrs, ond rwy'n cymryd ei fod yn gyfarfod anffurfiol, gan fod pobl yn aml yn ymgynnull mewn mannau fel meysydd chwarae cyhoeddus a/neu fannau agored gwyrdd sydd ar gael at ddibenion hamdden i'r cyhoedd. Ond byddaf yn mynd ar drywydd hyn ac yn darganfod ychydig mwy am y digwyddiad. Dim ond i gadarnhau, Mr Maer, nid oes unrhyw gydgynllwynio. Mae gennym bartneriaeth gyda chlybiau chwaraeon ar draws y Fwrdeistref Sirol ac rwy'n falch o hynny.

Gwneir partneriaethau yma hefyd gyda Chynghorau Tref a Chymuned yn ogystal â sefydliadau ac rydym wedi gwneud cynnydd yma o ran buddsoddi mewn clybiau chwaraeon ar draws y Fwrdeistref Sirol, ynghyd ag unrhyw gyfleusterau cysylltiedig.

Rydym hefyd wedi gweld mwy na £1,000,000 yn cael ei fuddsoddi mewn cyfleusterau fel y rhain a byddwn yn parhau i weithio gyda'n holl Glybiau Chwaraeon a Chynghorau Tref a Chymuned i'r perwyl hwn, oherwydd eu bod wedi mynegi diddordeb mewn cyflawni'r gwelliannau pellach hynny i gyfleusterau o'r fath ar draws y Fwrdeistref Sirol.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd I Williams**

A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi beth yw'r weithdrefn os bydd clwb yn penderfynu tynnu ei fuddiant yn y broses trosglwyddo asedau cyfalaf yn ôl am ba bynnag reswm, efallai anallu i gynnal yr asedau a gymerwyd drosodd, er enghraifft, caeau chwaraeon ac ystafelloedd newid.

Efallai oherwydd na allant ymrwymo i'r cyfrifoldeb o gymryd prydles am unrhyw gyfnod penodol o amser. Beth fyddai hynny'n ei olygu i'r clwb hwnnw petaent yn tynnu allan a

hefyd pe bai clwb yn cael ei orfodi i ddwylo'r gweinyddwyr neu wynebu methdaliad, a fyddai'r Awdurdod yn cymryd y brydles honno yn ôl drosodd?

Hefyd a yw'r cynnydd o 500% mewn llogi meysydd chwaraeon yn dechrau neu beidio, sut fydd hyn yn berthnasol? Pam na wnewch chi ddileu'r ffi hon os nad yw CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn bwriadu ei gorfodi?

**Ymateb**

Dyna gwpl o gwestiynau gan y Cynghorydd Williams. Mae sefyllfa'r brydles yn golygu bod amodau'r rhain yn amlwg wedi'u teilwra i wahanol safleoedd unigol, oherwydd bod pob un ychydig yn wahanol yn ei rinwedd ei hun. Byddai'r ased mewn achosion o'r fath wedyn yn dychwelyd i gyfrifoldeb yr awdurdod lleol.

Nid ydym eto wedi cyrraedd sefyllfa lle mae hyn yn broblem o ran Clybiau neu Gynghorau Tref a Chymuned gan nad yw wedi codi eto.

Rydym wedi gweithio'n llwyddiannus iawn gyda Chyngor Tref Pencoed fel partneriaeth, fodd bynnag, pe bai sefyllfa o'r fath fel y cyfeirir ati uchod yn codi, byddem yn edrych ar y rhain fesul achos gydag ymrwymiad hollbwysig i sicrhau y byddai chwaraeon yn parhau yn y lleoliadau hyn, er mwyn hyrwyddo ac annog cyfranogiad parhaus a chynyddol mewn chwaraeon ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Hefyd, ni fydd unrhyw glwb yn wynebu'r cynnydd o 500%, oherwydd bod pob clwb wedi mynegi diddordeb yn yr ystyriaeth o gymryd drosodd asedau chwaraeon a phan gefais ddiweddariad ar CAT yr wythnos hon, nid oes yr un Clwb na Chyngor Tref/Cymuned wedi nodi nad ydynt yn barod i ymgymryd â threfniant partneriaeth. Felly, rydym yn sôn am sefyllfa ddamcaniaethol nad yw'n bodoli ar hyn o bryd.

Gan nad oes unrhyw ffioedd wedi'u cynyddu rydym yn gweithio'n llwyddiannus iawn gyda'r sefydliadau uchod, i adeiladu ar y llwyddiannau hyn mewn perthynas â'r holl safleoedd hyn. Mae rhai clybiau yn gwneud cynnydd pellach nag eraill, ond byddwn yn parhau i weithio'n agos iawn gyda phob un ohonynt, er mwyn adeiladu ar y capasiti presennol ac mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ymgorffori yn y rhaglen yn gyffredinol.

Mae'r Clybiau hefyd yn cael cymorth annibynnol gan Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo a'r Ganolfan Cydweithredol i helpu i gryfhau'r capasiti hwnnw, oherwydd mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod bod rhai Clybiau mewn gwell sefyllfa ariannol nag eraill.

**Cynghorydd Steven Bletsoe i'r Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol**

Pa feini prawf y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn eu defnyddio i benderfynu bod person wedi'i ddynodi'n “berson sy'n cysgu ar y stryd” ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr? A fyddai'r aelod cabinet yn gallu nodi sut y mae person sy'n cael ei ystyried yn "berson sy'n cysgu ar y stryd" wedi'i gofrestru a'i ddogfennu at ddibenion adrodd swyddogol ac a allai'r aelod cabinet roi rhifau'r rhai a gafodd eu dynodi'n "bobl sy'n cysgu ar y stryd" a'u cofrestru a'u dogfennu ym mis Medi 2021, Ionawr 2022, Ebrill 2022 a'r wybodaeth ddiweddaraf (os yn hwyrach nag Ebrill 2022).

**Ymateb**

Nid yw 'Person sy'n Cysgu ar y Stryd' wedi'i ddiffinio yn Neddf Tai (Cymru) 2014, ond at ddibenion ystadegol, dilynodd Llywodraeth Cymru yn agos y diffiniad a ddefnyddiwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y pryd (yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau bellach) ac mae wedi ei ddefnyddio ers 2016:

Argymhellir y diffiniad canlynol o berson sy’n cysgu ar y stryd:

a. Pobl sy'n cysgu, ar fin cysgu (yn eistedd ar/yn neu'n sefyll wrth ymyl eu dillad gwely), yn gorwedd yn yr awyr agored (fel ar y strydoedd, mewn pebyll, drysau, parciau, llochesi bysiau neu wersylloedd);
a. Pobl yn gorwedd mewn adeiladau neu fannau eraill nad ydynt wedi'u cynllunio i fyw ynddynt (e.e. grisiau, ysguboriau, siediau, meysydd parcio, ceir, cychod segur).

Ers dechrau pandemig Covid 19, mae Llywodraeth Cymru wedi bod â ‘dull cyfannol’ i sicrhau bod pobl sy’n cysgu ar y stryd yn cael llety dros dro. Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi mabwysiadu'r dull hwn ac mae llety dros dro wedi'i ddarparu i bobl sy'n cyflwyno eu hunain fel pobl ddigartref. Fel rhan o ymateb CBS Pen-y-bont ar Ogwr i’r ‘dull cyfannol’ mae cyfarfod Cell Digartrefedd wythnosol wedi’i greu. Mynychir hwn gan amrywiaeth o bartneriaid statudol a thrydydd sector ac mae'n galluogi dull aml-asiantaeth o nodi a chefnogi pobl sy'n cysgu ar y stryd.

Mae Tîm Ymyriadau y Wallich ar gyfer pobl sy’n cysgu ar y stryd (RSIT) yn allweddol i'n cefnogaeth i bobl sy'n cysgu ar y stryd. Mae elfen Brecwast y gwasanaeth yn gweithredu 365 diwrnod y flwyddyn. Mae staff yn cefnogi cleientiaid trwy ddarparu cymorth dyngarol ar ffurf brecwast, diodydd poeth, dillad cynnes, pethau ymolchi gan gysylltu â darpariaeth leol bellach. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ymateb i unrhyw hysbysiadau a wneir drwy'r ap Street Link neu wefan (https://www.streetlink.org.uk/). Mae elfen canolfan galw heibio y gwasanaeth (10 Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4AX) yn darparu amgylchedd diogel, oddi ar y stryd i hwyluso gwaith cymorth. Mae yna gyfleusterau ymolchi a hefyd mynediad i ffôn a chyfrifiadur. Gall defnyddwyr gwasanaeth gael mynediad o ddydd Llun i ddydd Gwener yma.

Yn ogystal â'n darpariaeth ddigartrefedd statudol, mae'r Cyngor hefyd yn comisiynu ystod eang o wasanaethau cymorth tai a ariennir drwy Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi'r Awdurdod Lleol yn ei ymdrechion i atal a lleddfu digartrefedd. Darparwyd manylion y gwasanaethau a ariannwyd yn 2022-23 i'r Cabinet ar 08 Mawrth 2022.

Er gwaethaf y dull hwn, mae nifer fach o achosion cymhleth yn parhau lle mae’r cymorth a gynigir wedi’i wrthod oherwydd amgylchiadau personol unigolyn.  Yn fras, mae unigolion sy'n cysgu ar y stryd yn aml yn gwneud hynny trwy ddewis neu lle mae unigolion wedi cael cais i adael llety, oherwydd risg annerbyniol barhaus i staff, eiddo neu breswylwyr eraill.

Lle nad oes unrhyw ymgysylltu â chymorth, gwneir pob ymdrech i atal lleoliadau rhag chwalu, gan gynnwys symud pobl i leoliadau eraill. Defnyddir ymagwedd aml-asiantaeth trwy aelodau'r Gell Ddigartref y cyfeiriwyd ati yn flaenorol. Mae Heddlu De Cymru a'r Gwasanaeth Prawf yn aelodau allweddol o'r Gell Ddigartref ac mae trafodaethau yn bwydo i mewn i'r agenda diogelwch cymunedol ehangach. Mae hyn yn sicrhau, lle cymerir camau gorfodi, fel hysbysiadau o dan A.35 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona, y gwneir hynny gyda gwir ddealltwriaeth o amgylchiadau ac i beidio â throseddoli cysgu ar y stryd.

Mae pob unigolyn mewn llety dros dro yn cael cynnig amrywiaeth o wasanaethau cymorth i ddiwallu eu hanghenion unigol – gall hyn gynnwys cymorth gan dîm allgymorth iechyd a gomisiynir yn rhanbarthol, sy’n darparu cymorth arbenigol i’r rheini â phroblemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau.

Yn ogystal â llety dros dro traddodiadol, mae CBSPAO hefyd yn darparu lloches sylfaenol ar ffurf PODS brys a ‘gofod llawr’. Mae'r rhain wedi'u lleoli ochr yn ochr â

phrosiectau llety â chymorth sy'n bodoli eisoes ac fe'u defnyddir fel dewis olaf yn unig, lle mae'r holl opsiynau eraill wedi'u hystyried. Dim ond nifer fach o achosion y gellir estyn cymorth iddynt

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal arolwg cipolwg ‘un noson’ o’r rhai sy’n cysgu ar y stryd ar un noson benodol yn yr hydref.  Y ffigurau diweddar ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yw 2018/19 = 5, a 2019/20 = 7.  Ers Covid, mae Llywodraeth Cymru yn monitro’r rhai sy’n cysgu ar y stryd yn fisol ac ym mis Medi 2021 = cofnodwyd 2 achos, Ionawr 2022 = cofnodwyd 6 achos ac Ebrill 2022 = cofnodwyd 3 achos. Mae’r grŵp bach yma o unigolion yn adnabyddus iawn, ac mae gwasanaethau’n parhau i weithio i ddarparu’r cymorth gorau iddynt, yn dibynnu ar eu hanghenion cymhleth tra’n cydbwyso hynny ag anghenion cymuned ehangach Pen-y-bont ar Ogwr.

Gall unrhyw un sy’n pryderu am rywun sy’n cysgu ar stryd roi gwybod amdano drwy’r gwasanaeth https://www.streetlink.org.uk/ a fydd yn hysbysu’r Awdurdod a’r Wallich yn uniongyrchol.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd S Bletsoe**

Cyn fy nghwestiwn atodol, hoffwn gadarnhau yn yr ymateb uchod ei fod yn datgan y cyfnodwyd ym mis Ebrill ym Mhen-y-bont ar Ogwr bod tri unigolyn yn cysgu ar y stryd yn y Fwrdeistref Sirol y mis penodol hwnnw.

Fodd bynnag, nododd cyngor Llywodraeth Cymru ar hyn a’r rhai sy’n cysgu ar y stryd yn y Fwrdeistref Sirol a Bwrdeistrefi Sirol cyfagos eraill fod CBSPAO wedi darparu ffigur iddynt, sef bod wyth o bobl mewn gwirionedd wedi bod yn cysgu ar y stryd yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod y mis hwn. Felly yn amlwg, mae gwahaniaeth rhwng y ddau ffigur hynny.

Mae’n bosibl mai’r bobl sy’n cysgu ar y stryd yn ein Sir yw rhai o’r bobl fwyaf agored i niwed yr ydym yn gyfrifol am ofalu amdanynt ac rwyf wedi siarad â nifer o bobl a sefydliadau allweddol yn ein Bwrdeistref sy’n gweithio ar y rheng flaen gyda’r rhai sy’n cysgu allan. Dywedant fod y ffigwr o wyth ac yn arbennig y ffigwr o dri yn tangofnodi'n sylweddol y ffigyrau yn eu profiad personol hwy. Nid oes gennyf unrhyw reswm i amau hynny.

Rwyf hyd yn oed wedi siarad â phobl sy’n cysgu ar y stryd, sydd wedi rhoi enwau mwy nag wyth o bobl a oedd yn cysgu ar y stryd yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr i mi, heb sôn am Sir Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Ebrill eleni.

O ystyried bod hwn yn beth mor anodd i’w fesur, sut y gallwn ni, fel awdurdod, wella’r ffordd yr ydym yn adrodd ar y ffigurau hyn fel y gallwn ymdrin â hwy yn briodol ac mewn ffordd sy’n cynrychioli ac yn gofalu am y rheiny sy’n rhai o’r pobl fwyaf agored i niwed yn ein Bwrdeistref Sirol?

**<u>Ymateb</u>**

Nid wyf wedi gweld y llenyddiaeth gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, byddaf yn gwirio hyn yn erbyn gwybodaeth y Cyngor fel y dyfynnir uchod. Byddwn yn awyddus i glywed gan y gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio yn y maes hwn, i weld sut mae’r wybodaeth am ffigurau yn wahanol i’r awdurdodau lleol.

Rydym yn comisiynu'r Elusen Wallich i ddarparu gwasanaeth 365 diwrnod y flwyddyn, i gefnogi pobl ddigartref ac rydym hefyd yn gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i nodi maint y broblem wrth symud ymlaen. Mae yna bobl ddigartref sy’n byw mewn llety dros dro ac nid yw’r unigolion hyn yn cysgu ar y stryd, er ein bod yn

drasig wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl ddigartref ym Mhen-y-bont ar Ogwr o 308 ym mis Mehefin y llynedd o gymharu â 321 ar gyfer yr un mis eleni.

Fodd bynnag, rydym yn cynnal y cymorth, drwy ddarparu llety dros dro i rai. Er bod y bobl hyn yn cael eu dosbarthu'n ddigartref, nid ydynt yn cysgu ar y stryd. Gall pobl eraill gael eu lletya mewn podiau neu lety ar y llawr.

Mae camau gweithredu cadarnhaol wedi'u rhoi ar waith hefyd, sef cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a £2m ychwanegol y rhoddwyd cyfrif amdano yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i gefnogi pobl ddigartref, ynghyd â chyllid pellach gan y Cyngor eto ar gyfer V2c, er mwyn iddynt uwchraddio 35 eiddo gwag.

Dylid cofio hefyd y cymorth parhaus yr ydym hefyd yn ei ddarparu i'r rheini sy'n ddigartref sydd â phroblemau iechyd meddwl, dibyniaethau ac anghenion cymhleth eraill.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd M Hughes**

Edrychais ar y Cabinet ddoe a nodi o adroddiad a ystyriwyd fel rhan o fusnes yr agenda, fod cyllid ychwanegol wedi'i roi i Lanmau, sefydliad sy'n cefnogi'r digartref a'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. A allai'r Arweinydd gadarnhau beth fydd y cyllid ychwanegol hwn yn ei gynnig i fynd i'r afael â digartrefedd ar draws y Fwrdeistref Sirol.

**Ymateb**

Mae Llanmau yn darparu gwasanaethau cymorth cyfryngu teuluol, oherwydd yn anffodus yr 2il rheswm uchaf dros ddigartrefedd yn y Fwrdeistref Sirol yw perthnasoedd sy'n chwalu rhwng rhieni a phlant yn eu harddegau yn yr un cartref.

Bydd y cyllid pellach hwn, gobeithio, yn helpu i ymyrryd a datrys y sefyllfa drwy sefydliadau fel hyn, gyda'r bwriad o ailadeiladu'r berthynas a dorrwyd i bwynt lle nad yw'r teulu'n chwalu'n gyfangwbl a lle y byddai hynny'n arwain at y person ifanc yn gadael y cartref teuluol.

Rydym wedi cefnogi 72 o aelwydydd yma a oedd yn y sefyllfa hon y llynedd gyda Llanmau ac wedi cyflawni cyfradd llwyddiant o 57% o deuluoedd o'r fath naill ai'n parhau'n gyfan, neu'r person ifanc dan sylw yn gadael, ond wedyn yn dychwelyd adref ar ôl cyfnod byr o adael a chael ei ddosbarthu fel person digartref. Cynigiwyd llety symud ymlaen i 89% o'r bobl hyn a adawodd y cartref teuluol a dangosodd yr adborth ganddynt fod 100% yn teimlo eu bod wedi cael canlyniad boddhaol, un ffordd neu'r llall.

**Trydydd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd E Winstanley**

Pa gymorth rydyn ni'n ei roi i bobl ddigartref Pen-y-bont ar Ogwr drwy bartneriaid fel The Wallich.

**Ymateb**

Mae'r Wallich yn cefnogi'r rhai sy'n cysgu ar y stryd ac yn helpu i ddarparu lle iddynt gael mynediad i gyfleusterau ymolchi, yn ogystal â mynediad at fwyd a gwasanaethau cymorth eraill. Maent hefyd yn cynorthwyo gyda llety symud ymlaen lle dymunant dderbyn hyn (yn hytrach na llety parhaol a wrthodir weithiau).

Mae'r sefydliad wedi cefnogi 36 o bobl sy'n cysgu ar y stryd yn ddiweddar i'r perwyl hwn ac maent yn parhau i gefnogi unigolion ar draws y Fwrdeistref Sirol gyfan ac nid yn unig y rhai sy'n cysgu ar y stryd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a chanol trefi eraill.

## Cwestiwn gan y Cynghorydd R Thomas i'r Aelod Cabinet Adfywio

Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud i gefnogi'r stryd fawr ynghanol trefi ar draws y fwrdeistref sirol?

## Ymateb

Mae gan CBSPAO gyfres o ymyriadau ar waith sy'n anelu at gefnogi ein strydoedd mawr sy'n cynnwys buddsoddi mewn busnesau a menter; cymorth i fasnachwyr a pherchnogion; buddsoddi mewn adeiladau ac amgylchedd canol y dref a chyflawni ymgyrchoedd marchnata. O flwyddyn i flwyddyn, rydym yn adolygu ac yn addasu cyfleoedd i ymateb yn well i faterion ac i fanteisio ar raglenni grant neu gyllid newydd a chyfleoedd i weithio gyda chydweithwyr ar draws y Fwrdeistref Sirol a Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a Thargedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) blaenorol, rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 22, sicrhawyd a gwariwyd £1,572,620 ar eiddo stryd fawr ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Maesteg drwy'r rhaglen Gwella Eiddo Canol Trefi.  Roedd y prosiectau hyn yn canolbwyntio ar gyflawni gwelliannau ffisegol a chymdeithasol trwy ailddatblygu adeiladau segur ac adeiladau gwag, o ansawdd gwael, nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon neu adfeilion, gyda'r bwriad o greu cyfleoedd cyflogaeth; darparu lleoliadau amlwg ac addas ar gyfer defnydd masnachol a manwerthu; diogelu a chynnal ardaloedd siopa lleol, cynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol y dref a sicrhau bod tai addas ar gael yng nghanol y dref.

Mae cynigion prosiect ar gyfer Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi 2022-2025 yn cael eu llunio ar hyn o bryd gyda'r nod o fuddsoddi'n uniongyrchol yng nghanol y tair tref sef Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl a Maesteg, a fydd yn cynnwys cyfleoedd pellach ar gyfer cymorth grant a buddsoddiad mewn eiddo.

Dros y 2 flynedd ddiwethaf mae dau ar bymtheg o eiddo canol tref ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a Phorthcawl hefyd wedi elwa o £113,247 o gyllid Grant Gwelliannau Awyr Agored Covid.

Bydd cwblhau ailddatblygiad £8.9miliwn Neuadd y Dref Maesteg yn cynnwys creu atriwm gwydr newydd, theatr stiwdio a sinema, caffi a bar mesanîn, a llyfrgell fodern. Bydd y cyfleuster aml-ddefnydd yn darparu gofod i gymdeithasu, dysgu, cyrchu gwybodaeth, gwella sgiliau, creu swyddi a dathlu'r dreftadaeth arwyddocaol y mae'r adeilad hwn yn ei gwmpasu.

Mae cais yn cael ei baratoi ar hyn o bryd i gefnogi buddsoddiad tebyg ym Mhafiliwn Porthcawl, i greu gweithgarwch, cyfleoedd creadigol a chynyddu nifer yr ymwelwyr ym Mhorthcawl. Mae buddsoddi mewn adeiladau ac asedau allweddol yng nghanol trefi a'r stryd fawr yn rhan fawr o'r rhaglen i ddatblygu gweithgareddau a nifer yr ymwelwyr yn ein trefi. Yn ogystal â'r Pafiliwn, mae swyddogion hefyd yn gweithio ar Bont Ffordd newydd ar gyfer Penprysg, a fyddai'n gweld problemau traffig sylweddol yn cael eu lleddfu a gwelliannau i amgylchedd canol y dref.

Yn benodol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r Astudiaeth Mynediad i Ganol y Dref, sydd ar y gweill ar hyn o bryd, yn adolygu astudiaethau blaenorol a pholisi/canllawiau diweddaraf y DU yn ogystal â'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig presennol er mwyn darparu opsiynau posibl ar gyfer gwell mynediad i ganol y dref a gwell mynediad gweithredol i fusnesau.

Hefyd, ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr, i ddod â champws dysgu newydd i ganol y dref. Byddai'r prosiect gwerth miliynau hwn ynddo'i hun yn dod â mwy na mil o fyfyrwyr a staff i ganol y dref yn ddyddiol, gan gynyddu nifer yr ymwelwyr a

gweithgarwch dyddiol yn y dref a gweithredu fel catalydd ar gyfer gwariant, datblygiad a buddsoddiad.

Y bwriad yw darparu ystod o ymyriadau Seilwaith Gwyrdd (SG) ar draws y tair prif ganol tref fel rhan o Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi 2022-2025 Llywodraeth Cymru i adeiladu ar y gwelliannau Seilwaith Gwyrdd gwerth £117,000 a wnaed ar Commercial Street Maesteg.

Bydd Strategaeth Gwella Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n cael ei chwblhau ar hyn o bryd, yn darparu strategaeth gyffredinol ar gyfer darparu ymyriadau Seilwaith Gwyrdd amlswyddogaethol. Ystyrir bod y ddogfen yn arf allweddol i hysbysu ac addysgu rhanddeiliaid allweddol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau bod SG trefol yn hanfodol i fywiogrwydd a chynaliadwyedd canol trefi yn y dyfodol ac i hyrwyddo cydweithio. Yn ogystal â'r manteision amgylcheddol a llesiant, bydd SG yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad economaidd ac yn hybu buddsoddiad wrth gynyddu gwerth tir ac eiddo.

Cynigir grantiau lluosog a chymorth i fusnes a menter drwy ein Tîm Cymorth Busnes. Dros y 2 flynedd ddiwethaf, dyfarnwyd dros £50m o gymorth grant i gefnogi busnes drwy gyfnod o gyfyngiadau Covid, gyda llawer o'r hyn a ddyfarnwyd i fusnesau a masnachwyr annibynnol a manwerthwyr ar y stryd fawr, nid yn unig i gefnogi eu busnes presennol ond i helpu iddynt newid ac addasu ar gyfer y dyfodol.

Mae cam cyntaf y ceisiadau Cronfa Cychwyn Busnes newydd yn cael eu prosesu ar hyn o bryd a bydd y rownd nesaf o geisiadau yn cael ei hailagor tua diwedd mis Gorffennaf.

Dyma gynllun grant hyblyg a ddarperir trwy bartneriaeth gyda UK Steel Enterprise a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n darparu cymorth ariannol i ficrofusnesau newydd neu bresennol sydd wedi'u lleoli, neu'n bwriadu lleoli, ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Cronfa Grant POP-UP CYMRU - Mae hwn yn gynllun grant penodol a ddarperir gan CBSPAO ar gyfer cyfranogwyr Prosiect Pop-Up Cymru. Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol. Pwrpas y grant yw darparu cymorth ariannol i fusnesau newydd, mentrau cymdeithasol a busnesau sydd wedi'u lleoli, neu sy'n bwriadu lleoli yn CBSPAO ac sydd wedi cofrestru gyda Pop-Up Wales ar gyfer cymorth busnes parhaus, bydd y grant hwn yn cefnogi 100% o gostau prosiectau cymwys.

Mae'r math o weithgaredd a chefnogaeth y mae ein grantiau busnes yn darparu ar eu cyfer yn cynnwys offer; datblygu gwefan; costau marchnata a chyhoeddusrwydd; gwella adeiladau ar raddfa fach; costau staff; ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol ac mewn rhai achosion ardrethi busnes 1 mis.

Mae cyfle hefyd i fasnachwyr a busnesau'r stryd fawr fanteisio ar aelodaeth Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr. Fel aelod o Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr, mae gennych gyfle i farchnata eich busnes a'ch cynnig, manteisio ar ddigwyddiadau am ddim a chyfleoedd rhwydweithio, cynigion i aelodau.

Trwy swyddogaeth rheoli canol trefi, mae'r awdurdod yn sicrhau bod materion gweithredol o fewn canol trefi yn cael eu rheoli a'u datrys. Cefnogir ymholiadau a materion gan fasnachwyr, y cyhoedd a darpar fuddsoddwyr. Targedir buddsoddwyr a rhoddir cyhoeddusrwydd i gyfleoedd. Hefyd amrywiol weithgareddau hyrwyddo ar draws canol trefi fel cyrchfannau i ymwelwyr, cynigion tymhorol a chyfleoedd marchnata a buddsoddi fel ymgyrchoedd Nadolig a Treuliwch yr Haf yng Nghanol eich Tref. Mae cynlluniau i gefnogi masnachwyr gydag apiau marchnata ar gyfer cynigion tymhorol hefyd wedi'u darparu'n llwyddiannus.

Mae Uwchgynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr a gwblhawyd yn ddiweddar yn crynhoi strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cynyddu nifer y bobl sy'n siopa, yn gweithio, yn byw, yn ymweld ac yn mwynhau canol y dref ac yn ceisio gwella cyfleoedd manwerthu, creu gofodau masnachol a swyddfeydd newydd, cyflwyno gwaith parth cyhoeddus newydd a darparu gwell cyfleusterau trafnidiaeth. Mae'n nodi cyfres o brosiectau uchelgeisiol y gellir eu cyflawni ar gyfer y 10 mlynedd nesaf a fydd yn cefnogi twf economaidd yn y dyfodol ac yn sicrhau mwy o fanteision a chyfleoedd i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn yr un modd, mae Strategaeth Creu Lleoedd ar gyfer Porthcawl hefyd wedi'i chwblhau'n ddiweddar, a fydd yn cefnogi datblygiad mawr ar draws y dref ehangach, ond gyda'r bwriad o gysylltu datblygiad â thref ffyniannus a chefnogi a buddsoddi ynddi. Bydd gwaith ar strategaeth creu lleoedd ar gyfer Maesteg hefyd yn dechrau yn ddiweddarach eleni, eto i gefnogi'r cyfleoedd buddsoddi amrywiol ar draws y dref.

Mae'r awdurdod yn parhau i gefnogi cynigion parcio ym Mhorthcawl a Phen-y-bont ar Ogwr i alluogi parcio am ddim i gael mynediad i'n canolfannau masnachol.

Mae nifer yr ymwelwyr ar draws y tair prif dref yn CBSPAO wedi cynyddu o wythnos i wythnos ers i gyfyngiadau covid ddod i ben, ac er nad yw'n cyrraedd y lefelau cyn pandemig, mae'n mynd i'r cyfeiriad hwnnw. Mae cyflwyno marchnadoedd stryd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl wedi bod yn hynod lwyddiannus, ynghyd â chefnogaeth i gynigion, gweithgareddau a digwyddiadau a drefnwyd gan fasnachwyr a sefydliadau lleol eu hunain ym marchnad Pen-y-bont ar Ogwr a chanol y dref.

Mae mwy o gyfleoedd ar gyfer buddsoddiad wedi'i dargedu, cymorth a chyngor ar gyfer y stryd fawr yn cael eu creu o fewn y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) 2022 – 2025 newydd, y gellir ei darparu ar draws pob stryd fawr ac ardal fasnachol yn y Fwrdeistref Sirol.

Bydd y pecyn buddsoddi sy'n cael ei greu yn cynnwys mwy o grantiau cyfalaf a buddsoddiad ar gyfer eiddo masnachol gwag presennol; cyfres fwy o grantiau busnes a menter; pop-up a chyngor ar ddefnydd yn y cyfamser, cllid a marchnata a chyllid ar gyfer digwyddiadau.

Mae swyddogion yn parhau i weithio i sicrhau bod pob llwybr cymorth a buddsoddiad yn cael ei archwilio i gefnogi gwelliannau i'r Stryd Fawr. Rydym yn gweld rhai newidiadau cadarnhaol fis ar ôl mis, gyda 12 busnes stryd fawr newydd yn gweithredu ers mis Ebrill eleni ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a Phorthcawl.

Hyrwyddir yr holl gyfleoedd i ymgysylltu â CBSPAO i gael mynediad at gyngor, cymorth a grantiau trwy ein sianeli cyfathrebu, yn bennaf gwefan CBSPAO, Twitter, Facebook.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd R Thomas**

Yn gyntaf, hoffwn gydnabod gwaith parhaus Tîm Adfywio'r Cyngor sydd, er eu bod yn adran fach iawn, yn cymryd camau breision o ran ceisio buddsoddiad allanol a sicrhau grantiau, ac ati.

Rwy'n cydnabod yr ymdrechion a wnaed yn lleol ac yn genedlaethol yn wyneb y cynnwrf economaidd a brofwyd yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, yn ogystal â'r ansicrwydd sy'n dod yn sgil y ffordd ymlaen. Felly, pa wersi adeiladol sydd wedi'u dysgu o'r Fenter Ardal Gwella Busnes flaenorol yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr ac er bod hon wedi'i dirwyn i ben, a oes unrhyw gynlluniau i'r Cyngor hwn yn y tymor presennol edrych ar fidiau/mentrau tebyg i gronni buddsoddiadau a sicrhau bod y bunt leol yn aros yn lleol.

Hoffwn hefyd wahodd yr Aelod Cabinet – Adfywio i ymweld â Threorci gyda mi, i weld eu llwyddiant i'r perwyl hwn.

**Ymateb**

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau nad oedd hi'n gallu gwneud sylw ar y bid blaenorol y cyfeiriwyd ato, o ystyried bod hyn wedi digwydd cyn iddi gael ei chyflogi gan y Cyngor. Fodd bynnag, byddai'n trefnu bod ymateb addas yn cael ei lunio gan un o'i Swyddogion a'i anfon at yr Aelod y tu allan i'r cyfarfod, neu'n cyfarfod ag ef i drafod y mater hwn ymhellach.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet - Adfywio hefyd y byddai'n hapus i fynd ar yr ymweliad â Threorci.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd G Walter**

Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflwyno Wi-Fi am ddim yng nghanol ein trefi

**Ymateb**

Rydym yn cyflwyno Wi-Fi am ddim ym mhob un o'n pedair canol tref ac mae hyn yn cael ei ddarparu drwy fuddsoddiad mawr yn ein darpariaeth teledu cylch cyfyng a fydd yn cadw ein cymunedau'n ddiogel ac yn atal troseddu. Bydd hyn yn gaffaeliad i ymwelwyr â'r Fwrdeistref Sirol a thrigolion fel ei gilydd.

**Trydydd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd R Collins**

Fel rhywun sydd â phrofiad hirdymor yn y fasnach adwerthu yng nghanol tref Maesteg, a allwch gadarnhau bod y gefnogaeth i fusnesau bach a chanolig ac unig fasnachwyr yn cael sylw digonol gan CBSPAO er mwyn sicrhau bod ein strydoedd mawr yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel fel pwynt cyswllt gweladwy.

**Ymateb**

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod nifer sylweddol o fasnachwyr a busnesau bach a chanolig yn nhref Maesteg ac ardal y farchnad, lle'r oedd nifer o siopau bach annibynnol, a fyddai'n cael eu diogelu yn y dyfodol ac mae ein Rheolwr canol tref ym Maesteg yn angerddol dros hyn. Rydym wedi gweithio'n galed i ddiogelu'r busnesau hyn drwy gymorth yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf drwy roi Cymorth Covid a Grantiau Gwella Busnes, fel y gallai masnachwyr gael cymorth gyda'u modiwlau busnes. Roedd y rhain wedi galluogi rhai busnesau i barhau i weithredu yn yr awyr agored yn ogystal â darparu ar gyfer llwybrau manwerthu ar-lein. Roedd y rhain yn allweddol i weithrediad effeithiol busnesau yn y dref a byddai CBSPAO yn parhau i gefnogi masnachwyr lleol a busnesau bach a chanolig fel hyn. Mae siopa'n lleol wedi'i gynnal a hyd yn oed symud ymlaen ymhellach ers ac yn ystod Covid, lle dangoswyd gwerthfawrogiad i fasnachwyr gan gwsmeriaid, gan amlygu gwerth siopau llai. Cynlluniwyd buddsoddiad pellach hefyd drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer busnesau bach o'r natur hwn.

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Alex Williams i'r Arweinydd**

Dywedodd y Cynghorydd Williams ei fod yn dymuno tynnu ei gwestiwn yn ôl.

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Della Hughes i'r Aelod Cabinet - Cymunedau**

Gan fod y cyfnod o 30 munud ar gyfer cwestiynau gan Aelodau i'r Pwyllgor Gwaith bellach wedi'i gyrraedd, dywedodd y Maer y byddai'r cwestiwn uchod, fel y'i dangoswyd yn fanwl ar agenda'r cyfarfod, yn trosglwyddo i gyfarfod mis Medi'r Cyngor.

39. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:15